


Craidd - Sbardun 1 – Ysgol yr Awyr, Awstralia



Helo!

Lucas ydw fy enw i, ac rwy'n byw yng nghefn gwlad Awstralia. Mae hi'n ardal anghysbell iawn.

Does dim llawer o bobl yn byw yn yr ardal, a does dim digon o blant i gael ysgol. Alice Springs yw'r dref agosaf, ond mae hi dros gant cilometr i ffwrdd.



Felly sut rydw i'n cael addysg? Rwy'n mynd i Ysgol yr Awyr. Ysgol ar y we yw hi. Fel arfer, rwy'n treulio cyfnod o amser ar y we bob dydd yn cael gwers grŵp neu wers unigol gyda'r athrawes. Mae hi mewn stiwdio yn Alice Springs. Wedyn, rwy'n gweithio drwy'r tasgau mae'r athrawes wedi'u rhoi. Weithiau mae fy mam yn helpu, neu fy mrawd Joe, sy'n 14 oed.

Dair neu bedair gwaith y flwyddyn, rwy'n mynd i'r ysgol am wythnos i aros. Mae'r plant eraill sy'n rhan o Ysgol yr Awyr yn dod hefyd. Mae'n gyfle da i weld yr athrawes ac i ddod i adnabod y plant eraill yn yr ysgol.

Pan oedd fy nhad-cu'n ifanc, roedd dewis. Naill ai roedd plant yn gadael cartref a mynd i aros yn yr ysgol yn Alice Springs drwy'r tymor neu roedden nhw'n aros gartref a gwneud gwersi drwy'r post. Penderfynodd fy nhad-cu adael cartref i fynd i'r ysgol breswyl. Ond roedd yn gweld eisiau ei deulu'n fawr iawn.

Pan oedd fy nhad yn ifanc, roedd Ysgol yr Awyr yn digwydd dros y radio, ac roedd yn anfon ei waith drwy'r post i gael ei farcio. Doedd hynny ddim yn gweithio'n dda iawn bob amser achos roedd y post yn hwyr weithiau.

Mae pethau wedi newid achos y rhyngrwyd. Rwy'n lwcus iawn fy mod i'n gallu aros gartref, ond yn gallu cysylltu â'r athrawes a phlant eraill hefyd.

Craidd - Sbardun 2 – Yr Ysgolion Cylchynol

"Mam! Mam! Ga' i fynd i'r ysgol?" gofynnodd Thomas Jones, 14 oed, i'w fam, un bore ym mis Tachwedd 1752.

"Ysgol? Pam rwyt ti eisiau mynd i'r ysgol, 'machgen i'?" gofynnodd ei fam. "Rwyt ti'n gwybod popeth sydd ei angen i weithio fan hyn ar y fferm."

"Dwi eisiau dysgu darllen, Mam," atebodd Thomas. "A fydd dim rhaid talu ceiniog."

"Diolch byth am hynny," ochneidiodd ei fam. "Does gen i ddim arian i roi dillad amdant ti, heb sôn am dalu am yr ysgol. Ond beth am yr amser y byddi di'n ei golli o'r fferm?"

"Dim ond am dri mis bydd yr ysgol yn y pentre," mynnodd Thomas. "A beth bynnag, mae llai o waith yn ystod y gaeaf. Meddyliwch, erbyn y gwanwyn, bydda i'n gallu darllen!"

"O'r gorau 'machgen i," meddai ei fam. "Hoffwn i ddod gyda ti, ond mae cymaint o waith i'w wneud ar y fferm, rhwng helpu dy dad a bwydo'r teulu enfawr yma. Mae dwsin ohonon ni gyd!"

Felly, i ffwrdd â Thomas Jones i'r eglwys i'r dosbarth darllen. Roedd dros dri deg o bobl yno - yn blant ac oedolion. Roedd eglwys yn oer a phawb yn rhynnu yn eu dillad carpiog. Ond eto, roedd pawb yn frwd iawn eisiau dysgu darllen.

Dysgodd Thomas ddarllen o'r dechrau'n deg - llythrennau'r wyddor yn gyntaf, ac yna, rhoi geiriau at ei gilydd. Erbyn diwedd y tri mis, mae Thomas yn gallu darllen y Beibl Cymraeg a llyfrau crefyddol eraill. Yna, mae'r athro yn symud ymlaen i ardal arall, i ddysgu rhagor o blant ac oedolion.

Ysgolion Cylchynol

Pa air sy'n cuddio yn y gair 'cylchynol'? 'Cylch', wrth gwrs. Ysgolion cylchynol oedd yr enw ar yr ysgolion oherwydd eu bod nhw'n symud o un cylch i'r cylch nesaf. Dysgodd tua hanner poblogaeth Cymru - chwarter miliwn o bobl - ddarllen yn yr ysgolion hyn rhwng 1731 a 1761.



Griffith Jones, Llanddowror (1683-1761)

Griffith Jones oedd y dyn a sefydlodd yr ysgolion cylchynol. Roedd yn rheithor Llanddowror, sydd ger San Clêr yn Sir Gaerfyrddin. Roedd yn gweld bod plant ac oedolion Cymru'n methu darllen y Beibl yn Gymraeg. Felly, hyfforddodd athrawon i fynd allan i'w dysgu. Hefyd, ysgrifennodd dros 30 o lyfrau i helpu pobl i ddysgu darllen.

Craidd - Sbardun 3 – Ysgolion cynradd bach neu fawr sydd orau?

Trafod:

Beth oedd maint yr ysgol gynradd yr aethoch chi iddi? Oeddech chi'n hapus yn yr ysgol, neu hoffech chi fod wedi mynd i ysgol o faint gwahanol?

Dyma rai o fanteision ac anfanteision ysgolion cynradd bach ac ysgolion cynradd mawr. Trafodwch y rhain. Ydych chi'n cytuno â nhw? Mae lle i chi ychwanegu rhagor hefyd!

Ysgolion cynradd bach

Manteision	Anfanteision
Mae pawb yn adnabod ei gilydd.	Does dim digon o blant gwahanol i ddod i'w hadnabod.
Rydych chi'n dod i adnabod plant o wahanol oedran, nid eich blwyddyn chi'n unig.	Efallai bod llai o adnoddau - e.e. cyfrifiaduron, neuadd, offer campfa.
Rydych chi'n cael sylw unigol da.	Os oes sawl blwyddyn yn y dosbarth, efallai dydy'r gwaith ddim bob amser yn addas i chi.
Mae cyfle i gymryd rhan ym mhopeth achos bod dim cymaint o blant - e.e. chwaraeon, cwis llyfrau, Eisteddfod yr Urdd.	Efallai nad oes digon o blant i gael tîm pêl-droed neu rygbi, neu barti llefaru.
Rydych chi'n dod i adnabod yr athrawon yn dda iawn achos maen nhw'n eich dysgu chi am sawl blwyddyn.	Os dydych chi ddim yn hoffi'r athro neu'r athrawes, rhaid i chi aros yn ei d/dosbarth am sawl blwyddyn.
Mae ysgolion bach yn rhan bwysig iawn o'r ardal a'r gymuned.	Mae ysgolion bach yn ddrutach i'w rhedeg nag ysgolion mawr.
Mae'r plant hynaf yn yr ysgol yn cael helpu a chymryd cyfrifoldeb.	Mae symud o ysgol gynradd fach i'r ysgol gyfun yn gallu bod yn sioc i'r system.
Manteision eraill?	Anfanteision eraill?

Ysgolion cynradd mawr

Manteision	Anfanteision
Mae llawer o blant ym mhob blwyddyn felly rydych chi'n gallu cael ffrindiau sy'n addas i chi.	Dydych chi ddim yn dod i adnabod plant o wahanol oedran.
Mae adnoddau helaeth mewn ysgol gynradd fawr fel arfer.	Efallai fod dim llawer o le os ydy'ch ysgol chi'n ysgol boblogaidd iawn.
Mae llawer o athrawon sydd â diddordebau gwahanol, e.e. cerddoriaeth, yr amgylchedd, chwaraeon, drama...	Mae'r dosbarthiadau'n gallu bod yn fawr iawn a does dim cymaint o sylw unigol.
Mae digon o blant i gael pob math o weithgareddau - pêl-droed, côr, parti dawnio...	Weithiau, yr un plant sy'n cael eu dewis i wneud popeth, a does dim cymaint o gyfle i blant eraill wedyn.
Mewn rhai ysgolion, mae athrawon yn arbenigo ar bwnc, e.e. hanes, felly rydych chi'n cael eich dysgu gan arbenigwr.	Dydy'r pennaeth ddim yn eich dysgu chi, felly dydych chi ddim yn dod i'w adnabod/i'w hadnabod yn dda.
Dydy'r cam o'r ysgol gynradd fawr i'r ysgol gyfun ddim yn un mawr iawn.	Rydych chi'n gallu teimlo 'ar goll' mewn ysgol gynradd fawr.
Manteision eraill?	Anfanteision eraill?

Estynnol - Sbardun 1 – Y Welsh Not

Y Welsh Not

Beth oedd y Welsh Not?

Darn o bren neu lechen oedd y Welsh Not, neu'r Welsh Note. Roedd y llythrennau W.N. neu'r geiriau Welsh Not/Welsh Note arno.

Pryd roedd yn cael ei ddefnyddio?

Roedd yn cael ei ddefnyddio yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif.

Sut roedd yn cael ei ddefnyddio?

Dim ond Saesneg roedd plant i fod i'w siarad yn yr ysgol. Felly, roedd y Welsh Not yn cael ei roi am wddf plentyn oedd yn siarad Cymraeg.

Beth oedd yn digwydd wedyn?

Os oedd y plentyn oedd â'r Welsh Not yn clywed rhywun arall yn siarad Cymraeg, roedd yn cael ei roi i'r plentyn hwnnw. Ar ddiwedd y dydd, roedd yr athro neu'r athrawes yn gofyn 'Who has the Welsh Not?' ac yn curo'r plentyn olaf i'w wisgo â chansen.

Beth oedd barn pobl am y Welsh Not?

Roedd rhai pobl yn erbyn y Welsh Not ac yn meddwl ei fod yn ffordd o ladd yr iaith Gymraeg. Hefyd, roedden nhw'n gweld bod plant yn dysgu bod yn gyfrwys a dweud celwydd am ei gilydd er mwyn peidio cael y gansen. Ond roedd rhai rhieni'n falch bod eu plant yn siarad Saesneg bob dydd yn yr ysgol.

Oedd rhywbeth tebyg i'r Welsh Not mewn gwledydd eraill?

Oedd, roedd rhywbeth tebyg i'r Welsh Not mewn sawl gwlad arall, fel Iwerddon, Llydaw a Kenya. Yma eto, roedden nhw'n ceisio cael plant i siarad Saesneg yn lle'r iaith frodorol.



O.M. Edwards a'r Welsh Not

Bachgen o Lanuwchllyn oedd Owen Morgan Edwards. Pan oedd yn naw mlwydd oed, aeth i Ysgol y Llan. Ar y diwrnod cyntaf, sylwodd ar y gansen ar ddesg yr athrawes, a dysgu am y Welsh Not.

'Yr oedd yr athro wedi dweud wrthyf yn ddistaw am beidio siarad gair o Gymraeg; ond yr oedd y bechgyn drwg... yn gwneud popeth fedrent i wneud i mi weiddi, ac o'r diwedd llwyddasant. Collais fy nhymer... Gydag imi ddweud fy Nghymraeg cryf, chwarddodd pawb, a rhoddwyd llinyn am fy ngwddf a thocyn pren trwm wrtho...'

Cafodd O.M. Edwards ei gosbi sawl gwaith am wisgo'r Welsh Not, ac roedd yn casáu'r ysgol oherwydd hyn:

'Blynnyddoedd chwerw oedd dyddiau ysgol i mi.'

Pan oedd yn ddyn, aeth O.M. Edwards ymlaen i gyhoeddi cylchgrawn i blant Cymru, o'r enw Cymru'r Plant (1892). Yn y cylchgrawn, roedd llawer o wybodaeth am Gymru, byd natur, cerddoriaeth, barddoniaeth a chwaraeon. Hefyd, ym 1907, daeth yn Brif Arolygwr ysgolion Cymru. Roedd yn annog athrawon i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu ac i roi hanes lleol iddyn nhw.

Mab O.M. Edwards oedd Ifan ab Owen Edwards, sylfaenydd Urdd Gobaith Cymru

Estynnol - Sbardun 2 – English Not?

Darllenwch y llythyr canlynol. Mae llythyrau Saesneg tebyg iddo wedi ymddangos yn y wasg yng ngorllewin Cymru dros y blynyddoedd.

Upper Mill,
Llanaber.

Annwyl Olygydd,

Rydym yn ysgrifennu atoch i gwyno am yr holl Gymraeg y sydd yn yr ysgol gynradd leol. Mae ein mab yn chwech oed ac ar hyn o bryd, mae'n siarad Cymraeg, yn canu caneuon a hwiangerddi Cymraeg ac yn dechrau darllen Cymraeg. Ond, er mawr ofid i ni, dydy e ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Saesneg eto. Rydyn ni'n awyddus iawn iddo wneud hyn achos Saesneg rydyn ni'n ei siarad gartref, nid Cymraeg.

Rydyn ni o'r farn ei fod yn gwastraffu llawer o amser wrth wneud popeth drwy'r Gymraeg. Beth yw'r pwynt iddo ddysgu Cymraeg? Mae'n wir ein bod ni'n byw mewn ardal lle mae tua hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg, ond rydyn ni'n cymysgu â phobl sy'n siarad Saesneg fel arfer. Dydyn ni ddim yn teimlo ein bod ni'n colli dim byd yn gymdeithasol nac yn ddiwylliannol oherwydd ein bod ni'n methu siarad Cymraeg. Ac wrth gwrs, mae pawb yn gallu siarad Saesneg.

Yn ogystal â hyn, dydy'r athrawon ddim yn hoffi pan fydd y plant yn siarad Saesneg. Maen nhw'n dweud, "Siaradwch Gymraeg," wrthyn nhw drwy'r dydd, yn ôl fy mhlentyn. Dydyn nhw ddim yn mynd mor bell â gorfodi'r plant i siarad Cymraeg, ond rydyn ni'n poeni weithiau bod rhyw fath o 'English Not' ar waith yn yr ysgol.

Mae'n rhy bell o lawr i ni fynd â'n plentyn ni i ysgol Saesneg yn y dref agosaf bob dydd, felly does dim dewis gyda ni ond yr ysgol gynradd leol. Mae gormod o Gymraeg yno, yn ein barn ni, a hoffen ni weld hyn yn newid.

Yn gywir iawn

Des a Beth Whittaker

Estynnol - Sbardun 3 – Disgyblion yn yr ysgol am fwy o amser?

Yn Lloegr, mae Michael Gove, yr ysgrifennydd addysg, wedi dweud bod angen:

- diwrnodau ysgol hirach
- llai o wyliau, yn enwedig gwyliau haf

Dyma sut mae rhai pobl wedi ymateb ar fforwm addysg ar y we.



Huw
Caerdydd

Mae syniad Michael Gove yn hollol wallgof! Mae'r diwrnod ysgol yn ddigon hir fel y mae. Dwi'n ddisgybl ysgol a dwi wedi blino ar ôl diwrnod ysgol o 9 i 3.30. Allaf i ddim dychmygu cael rhagor o wersi.

Postiwyd 19:31



Sandra
Wrecsam

Dwi'n rhiant ac yn gweithio o 9 i 5. Mae diwrnod ysgol y plant yn gorffen am 3.15. Byddai'n help mawr i mi petai'r ysgol yn gorffen tua 4.30. O leiaf wedyn fyddai dim rhaid talu am ofal ar ôl yr ysgol.

Postiwyd 19:43



Bethan
Aberteifi

Mae angen gwneud rhywbeth am y gwyliau haf – dwi'n cytuno â Michael Gove. Does dim angen cymaint o wyliau haf ar ddisgyblion ysgol. Mae chwe wythnos yn hir iawn!

Postiwyd 19:56



Huw
Caerdydd

Mae Michael Gove yn dweud bod disgyblion yn treulio mwy o amser yn yr ysgol mewn gwledydd eraill. Ond dydy hynny ddim yn wir. Mae plant yn Ewrop yn cael wyth neu naw wythnos o wyliau haf, ac mae eu diwrnod ysgol nhw o 8 i 1.

Postiwyd 20:15



Bethan
Aberteifi

Efallai bod disgyblion yn Ewrop yn cael mwy o wyliau, ond yng ngwledydd Asia maen nhw'n cael llai, mae'n debyg. Mae disgyblion yn China'n gweithio'n galed iawn. Fel dywedodd rhywun, mae dewis gyda ni: naill ai gweithio mor galed â phobl China, neu weithio i bobl China.

Postiwyd 20:27



Dylan
Caernafon

Dwi'n gweithio fel athro mewn ysgol uwchradd. Mae athrawon yn gweithio'n hen ddigon caled fel y mae hi. Mwy o wyliau dwi isio, nid llai!

Postiwyd 20:38



Sandra
Wrecsam

Mae cael mwy o wersi'n helpu disgyblion, yn enwedig os nad oes lle i astudio, cyfrifiadur a llyfrau ganddyn nhw gartref.

Postiwyd 20:42

Heriol - Sbardun 1 – Hanes Malala Yousafzai

Ddydd Mawrth, 9 Hydref 2012, roedd Malala Yousafzai, merch 15 oed, ar ei ffordd adref o'r ysgol yn ardal Swat yn Pakistan . Roedd hi wedi gwasgu i mewn gyda'i ffrindiau a'i hathrawon ar y lori heb gefn, neu'r 'bws ysgol'. Doedd dim ffenestri, dim ond darnau o blastig melyn a'u hymylon yn curo yn y gwynt. Yn sydyn, daeth fflach o rywle. Fflach danbaid o ddryll. Cafodd Malala ei saethu yn ei phen a'i gwddf.

Cafodd Malala ei saethu oherwydd iddi fynegi barn ar flog ar y we ac mewn cyfweiliadau i'r wasg ac ar y teledu. Mynegodd farn o blaid rhoi addysg i ferched. Roedd yn chwyrn yn erbyn y Taliban a oedd yn gwrthod gadael i ferched gael addysg pan oedden nhw'n rheoli ardal Swat. Roedden nhw hyd yn oed wedi gosod bomiau i ffrwydro ysgolion i ferched. Mynegodd farn am y ffordd roedden nhw'n cyfyngu ar fywydau menywod. Doedd menywod ddim yn cael mynd allan i weithio neu i siopa a doedd neb yn cael gwyllo'r teledu. Cafodd fwy a mwy o sylw, ac oherwydd hyn, daeth yn darged i'r Taliban. Roedden nhw eisiau ei lladd hi. Cyhoeddodd nhw sawl bygythiad mewn papurau newydd, a'u gwrthio nhw o dan ddrws ei chartref.

Ac ar y dydd Mawrth hwnnw ym mis Hydref, penderfynodd y Taliban wireddu eu bygythiad i'w lladd. Ond methu wnaethon nhw. Goroesodd Malala, ac er iddi fod yn anymwybodol am gyfnod, gwellodd yn ddigon da i gael ei chludo i ysbyty yn Birmingham, Lloegr. Yno, cafodd lawdriniaeth i ail-greu ei phenglog a'i chlust.

Erbyn mis Mawrth, 2013, roedd Malala wedi gwella'n ddigon da i fynd yn ôl i'r ysgol - y tro hwn i ysgol i ferched yn Birmingham, daflad carreg o'r ysbyty lle cafodd driniaeth.

Ym mis Hydref 2013, bydd Malala yn cyhoeddi ei hunangofiant: I am Malala. Ynddo, bydd hi'n sôn am ei bywyd, y saethu a hefyd yn adrodd stori'r 61 miliwn o blant eraill sy'n methu cael addysg yn y byd. Mae hi wedi dechrau ymgyrch i fynnu cael addysg i bob plentyn erbyn diwedd 2015.

Heriol - Sbardun 2 – Ysgolion yn Affrica ac yng Nghymru

Addysg yn Affrica

Mae llai o blant mewn ysgolion yn Affrica nag sydd yng ngwledydd eraill y byd. Mae 33 miliwn o blant yng ngwledydd Affrica sydd ddim yn mynd i'r ysgol, a 18 miliwn ohonyn nhw'n ferched.

Llythrennog v anllythrennog

Yng ngwledydd Ewrop a gogledd America, mae 99% o'r boblogaeth yn llythrennog. Ond yng ngwledydd Affrica, er bod y sefyllfa wedi gwella dros y degawdau diwethaf, mae tua 40% o bobl Affrica'n anllythrennog. Mae canran y menywod anllythrennog yn uwch, sef 50%.

Maint dosbarthiadau

Mae dosbarthiadau yn Affrica'n fawr iawn. Fel arfer, mae cyfartaledd o 40 disgybl i un athro, ond mae'r sefyllfa'n amrywio. Mewn rhai gwledydd, mae dros 60 disgybl i un athro.

Problemau cefn gwlad

Mae llawer o broblemau'n wynebu ysgolion yng nghefn gwlad Affrica:

Mae'n anodd cyflogi athrawon oherwydd bod y tâl yn isel a does dim llawer o bobl addas.

Mae'r rhai sydd wedi cael addysg yn aml yn symud i'r dinasoedd mawr neu i wledydd eraill.

Does dim llawer o adnoddau a llyfrau ac mae'r dosbarthiadau'n fawr iawn.

Felly, mae plant mewn ardaloedd gwledig fel arfer yn gwneud yn waeth na phlant o'r dinasoedd mewn profion.

Gwario ar ryfel yn lle addysg

Un o broblemau mawr gwledydd Affrica yw bod llawer o ryfeloedd a gwrthdaro'n digwydd yno. Felly, mae'n well gan y llywodraethau wario arian ar arfau a milwyr, yn lle addysg. Os bydd rhyfel yn digwydd, mae plant yn aml yn cael eu symud i wersylloedd i ffoaduriaid, felly maen nhw'n colli'r cyfle i gael addysg.

Ysgolion Cymraeg



Llun o Ysgol Sul yn Llechryd, lle byddai plant wedi cael eu gwersi yn Gymraeg



Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Cyn 1939, doedd dim ysgolion dyddiol Cymraeg, er bod ysgolion Sul yn cael eu cynnal yn Gymraeg. Roedd y gwersi yn yr ysgol dyddiol i gyd yn Saesneg. Agorodd Ysgol Gymraeg Lluest yn Aberystwyth ym 1939. Ysgol breifat oedd hi.

Ysgol Dewi Sant yn Llanelli oedd yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf i gael ei hagor gan y cyngor sir. Agorodd hi ym 1947. Erbyn 1956, roedd 30 o ysgolion cynradd Cymraeg wedi agor.

Ysgol Glan Clwyd oedd yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf. Agorodd hi ym 1956.

Erbyn hyn mae tua chwarter plant ysgolion cynradd Cymru, ac ychydig o 20% o blant ysgolion uwchradd Cymru'n derbyn eu haddysg yn Gymraeg.

Heriol - Sbardun 3 – Diarhebion a byd addysg!

Oes arfbais neu logo gan eich ysgol chi? Yn aml iawn mae geiriau oddi tano hefyd - gwireb neu ddihareb sydd yno.

Gwireb = gwirionedd sy'n cael ei ddweud mewn ffordd gryno.

Dyma rai enghreifftiau.

Ysgol	Dihareb neu wireb
Ysgol y Preseli, Crymymch	Cofia ddysgu byw
Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon	Hau hadau'r dyfodol
Ysgol Bryn Tawe, Abertawe	Ennill llwyr yw ennill iaith
Ysgol Maes Garmon, yr Wyddgrug	Ni lwyddir heb lafur
Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan	A fo ben bid bont
Ysgol y Creuddyn, Llandudno	Dawn Dysg Daioni
Ysgol y Strade, Llanelli	Nid da lle gellir gwell
Ysgol Gwynllyw, Pont-y-pŵl	Cerddwn ymlaen
Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy	Harddwch Doethineb Dysg
Ysgol Glantaf, Caerdydd	Coron gwlad ei mamiaith
Ysgol Uwchradd Bodedern, Caergybi	Hau i fedi
Ysgol Bro Myrddin, Caerfyrddin	Heb ddysg - heb ddeall
Ysgol Uwchradd y Drenewydd	Gwell dysg na golud (golud = cyfoeth)
Ysgol Gyfun Ystalyfera	Dysgu gorau, dysgu byw